COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL A MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mai 10fed, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts; Cynghorwyr Dewi Wyn Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Gwilym Hughes

Derbyniwyd ffurflenni Datgan Derbyn Swydd, Ymrwymiad i Barchu Côd Ymddygiad y Cyngor a Chofrestru Buddiannau Personol pawb a oedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig y Cynghorwyr newydd.

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

1. **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Cyng. Alun Jones (Ward Llangian) yn Gadeirydd a'r Cyng. Gwilym Hughes (Ward Llanengan) yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2017 – 2018 yn unfrydol.

Wrth drosglwyddo'r gadair, dywedodd Cyng. John Gwilym Jones yr hedfanodd blwyddyn arall heibio a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad. Llongyfarchodd gynghorwyr newydd Ward Aber-soch, sef Owi Lloyd-Jones ac Andrew Weir a ddaw'n aelodau yn lle John E. Griffiths a Thelma Cordingley ac, yn yr un modd, Dewi Wyn Roberts fel Aelod Lleol ar Gyngor Gwynedd dros Ward Aber-soch yn dilyn ymddeoliad R.H. Wyn Williams. Ychwanegodd fod angen diolch i'r olaf am fod yn dryw iawn i'r Cyngor Cymuned dros yr ugain mlynedd diwethaf. Anfonwyd llythyrau diolch atynt eisoes. Llongyfarchodd Cyng. John B. Hughes ar ei lwyddiant yntau'n cadw ei sedd fel Aelod Lleol dros Ward Llanengan. Diolchodd i'r Clerc am ei gwaith hithau'n ystod y flwyddyn. Diweddodd drwy ddweud y bwriada gyflwyno Gwpan y Cadeirydd i Mrs. Annie Owen i ddiolch am ei hymdrechion ar ran yr Eglwysi a chadw'r Ganolfan hon ar agor.

Dymunodd yn dda i'r Cyng. Alun Jones yn ystod ei dymor fel Cadeirydd. Diolchodd yntau i'r Cyn-gadeirydd am ei waith wrth gymryd y gadair.

2. **ENWEBIADAU IS-BWYLLGORAU**

Penderfynwyd gohirio enwebiadau i'r Is-bwyllgorau hyd nes bydd gennym aelodaeth llawn o'r Cyngor ar wahân i'r un Llwybrau – gweler cofnod 10b) Materion Hawliau Tramwy – Llwybrau Cyhoeddus yn y Cofnodion Misol isod.

3. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Derbyniwyd a mabwysiadwyd yr adolygiadau.

4. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU ARIANNOL**

Derbyniwyd a mabwysiadwyd yr adolygiadau.

5. **ADOLYGU ASESIADAU RISG, ARCHWILIAD MEWNOL Y CYNGOR A'R GOFRESTR ASEDAU**

Cynhaliwyd a derbyniwyd yr adolygiad a'r archwiliad ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

6. **POLISÏAU**

a) **Cyfryngau Cymdeithasol**
Fe'i mabwysiadwyd – gweler cofnod 11aii) Gohebiaeth – Un Llais Cymru – Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yn y Cofnodion misol isod.

b) **Iaith**
Derbyniwyd yr adolygiad a'i fabwysiadu.

9. **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2016 – 2017**

Penderfynwyd cynnal cyfarfod mis Gorffennaf, nos Fercher y 26ain.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 12fed, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad parthed cais C16/1578/39/LL Glenville, Aber-soch, er cysylltu eto**.**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0362/39/LL Newidiadau mewnol, diwygio ffenestri, newid rendr am orffeniad tebyg i bren ac ymestyn y to ymlaen – Arfor, Lôn Garmon, Aber-soch **– Cefnogir**

[Er Gwybodaeth – tynnodd y Cyn-gadeirydd sylw'r Clerc at yr uchod ar ddiwedd y cyfarfod drwy ddweud ei fod ar y rhestr Dyfarniadau Cynllunio hefyd (gweler isod). O wirio hyn, sylweddolwyd mai camgymeriad ydyw – DA (Diwygiad Ansylweddol) yw'r ddwy lythyren olaf ac, o'r herwydd, ni chaiff y Cyngor roi sylwadau ar y cais ac nis anfonwyd sylwadau.]

C17/0369/39/LL Newidiadau allanol yn cynnwys balconi – Bwthyn y Môr, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

C17/0393/39/LL Gwelliannau i do llechi presennol a chodi to llechi newydd yn lle to fflat presennol – Neigwl, Aber-soch **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***
Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth gyfreithiwr y Cyngor parthed y drysau.

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***
Ni dderbyniwyd ymateb i'r llythyr yn mynegi siomedigaeth o weld cynifer o wallau iaith mewn dogfen gyfreithiol nac anfoneb am y cyfraniad. Adroddodd Cyng. John B. Hughes y gofynnwyd iddo, wrth ganfasio, pam y glanheir y toiledau'n ddyddiol yn ystod y cyfnod maent ar gau, gan gynnwys y gaeaf – ysgrifennir i holi.

b) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd ymateb.

c) **Mynwent y Bwlch**
Penderfynwyd gohirio trafod ffensio rhan isaf y fynwent a'i osod fel tir pori.

ch) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***
Nid oedd dim pellach i'w adrodd.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***
Derbyniwyd cadarnhad o'r archeb am yr uchod, ynghyd â Mehefin 22ain fel dyddiad y'i cynhelir.

iii) ***Neges trwy Wefan y Cyngor***

Archebwyd a chasglwyd seddau siglenni'r babanod gan y Clerc ac, o ganlyniad, arbedwyd £21.00 o gludiant – gweler cofnod 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

d) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Archebwyd y camera; ni dderbyniwyd gwybodaeth os cyfranna'r Heddlu ato ai peidio – na gwybodaeth am pryd y derbynnir yr arwyddion. Cysylltir â'r heddweision newydd i'w gwahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

dd) **Meddygfa Aber-soch**
Ni dderbyniwyd mwy o wybodaeth.

e) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**
Ni dderbyniwyd adroddiad nac anfoneb er cysylltu eto.

f) **Gohebiaeth**: **11ch) Swyddog Trwyddedu – Cais Amrywio Trwydded Eiddo – Y Vaynol, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad parthed os bodola'r un oriau i dafarndai eraill Aber-soch, er mwyn tegwch.

5. **COED YR ALLT, ABER-SOCH**

Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth yr Heddlu'n dweud y byddant yn holi'r dyn a dorrodd y coed pan ddychwela gartref o dramor. Ni dderbyniwyd pris am blannu mwy o goed.

6. **ETHOLIADAU – CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

Ysgrifennwyd i fynegi anfodlonrwydd â'r problemau a gafwyd o gyflwyno ffurflenni enwebu yn Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli ond, ni dderbyniwyd ateb. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gynghorau Dolbenmaen (aeth y Clerc â'r ffurflenni i Gaernarfon, gan ei bod yn byw yno), Llanbedrog (yr un ymateb â'r Cyngor hwn), Porthmadog (mwyafrif wedi mynd i Gaernarfon/Dolgellau, gan eu bod yn gweithio yno) a Phwllheli (dim trafferth, ynghyd â nodi y penodwyd dau ddyddiad ar gyfer eu cyflwyno yn Nwyfor, sef Mawrth 23ain a 31ain, gwybodaeth a gafodd ar wefan Cyngor Gwynedd a gohebodd â'r Swyddog Etholiadol i ofyn beth yn union oedd y trefniadau) hyd yma. Syndod oedd darllen sylwadau Clerc Pwllheli, gan na dderbyniwyd unrhyw wybodaeth am hynny.

Sylwyd, ar ôl derbyn rhestr Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad y Gymuned, nad oedd enw'r Cyng. William B. Williams arni ac, o gysylltu i holi pam, deallwyd mai drannoeth y dyddiad cau y cyrhaeddodd ei ffurflen er iddo ei hanfon ddosbarth cyntaf ar Ebrill 3ydd. O ganlyniad, derbyniwyd Rhybudd Cyfethol – dyddiad cau Mai 19eg. Mynegwyd anfodlonrwydd â'r sefyllfa unwaith yn rhagor – cysylltir eto.

Yn anffodus, cyflwynodd R. Phillip Roberts ei ymddiswyddiad ar ddechrau cyfarfod heno cyn arwyddo ei ffurflenni derbyn swydd ac ati; credir mai cyfethol fydd rhaid ei wneud eto hefyd ond, cysylltir â'r Swyddog Etholiadau i'w holi.

7. **CYFRIFON – ARCHWILIAD 2016 – 2017 (MEWNOL AC ALLANOL)**

Anfonwyd llythyr gwahoddiad llawnach na'r llynedd at John D. Roberts, Archwilydd Mewnol, gan nodi y danfonir y llyfrau i'w harchwilio ar Fai 22ain. Penderfynwyd ei wahodd i archwilio cyfrifon 2017 – 2018 hefyd. Derbyniwyd fod y cyfrifon yn gywir, cyflawnwyd yr asesiadau risg, archwiliad mewnol a pharatowyd cofrestr asedau (gweler Cofnod 5. Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol uchod) – fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

8. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

b) **Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed yr ymholiad/gŵyn o ganlyniad i newidiadau i dŷ gael ei wneud ar 67 Cae Du heb gais cynllunio, ond derbyniwyd llythyr yn nodi y caniatawyd y gwaith peirianyddol di-ganiatâd o godi clawdd pridd yn y Warren, Aber-soch – gweler 12. Dyfarniadau Cynllunio isod.

9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**

i) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – fe'u torrwyd erbyn hyn.

ii) ***Lôn Sarn Bach –*** mynegwyd pryder am gyflwr yr eiddew ar y wal a'r gwellt ar y llwybr troed, yn arbennig rhwng Bodlondeb ac Eryri – cysylltir â'r Adran i geisio trefnu cyfarfod safle.

iii) ***Safleoedd Parcio ger Y Fach***
Bwriedir ffurfioli'r trefniadau parcio presennol drwy greu llecynnau pwrpasol o fewn y llecyn glaswellt, ynghyd â gosod peiriant talu ac arddangos ar gyfer y ddarpariaeth newydd. Bwriedir ymestyn y cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a. i gyfeiriad Llanbedrog hefyd – penderfynwyd cefnogi.

iv) ***Ffyrdd Aber-soch***
E-bost oddi wrth Cyng. Wyn Williams yn rhestru'r prosiectau sydd ar y gweill yn y Ward ac i'w cwblhau cyn yr haf:

1. parcio ger Traeth y Fach (gweler uchod)
2. ailwynebu Lôn Engan o'r Cae Chwarae i dai Pen y Bont pan gwblheir y gwaith adeiladu yno
3. newid system Aros/Ildio ger Capel y Graig o Lôn Gwydryn i Lôn Engan

4. congl Blaen y Wawr, Lôn Engan – toriadau i'r gwrychoedd er sicrhau gwell gwelededdd
5. tynnu clawdd Fron Haul, Lôn Sarn Bach, a chodi un newydd â phalmant o'i flaen – disgwylir arian nawdd
6. llinellau melyn newydd tu allan i Fodurdy T. a G. Williams ac ym Mhen Cei.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Penderfynwyd cyfarfod y tri a ddangosodd ddiddordeb yn y gwaith o dorri'r llwybrau â chynrychiolwyr y Cyngor – enwebwyd Cynghorwyr Wyn Griffiths, Robert M. Jones ac Andrew Weir fel aelod o bob Ward yn aelodau o'r Is-bwyllgor Llwybrau, ynghyd â'r Cadeirydd a'r Clerc. Trefnir cyfarfod cyn gynted â phosibl fel y gellir dechrau ar y gwaith ar ôl cyfarfod mis Mehefin.

c) ***Giatiau***
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, am yr oedi – ymddiheurodd yn bersonol i'r tirfeddiannwr; gosodwyd y giatiau erbyn hyn.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Hyfforddiant Anwytho Cynghorwyr Newydd***
Manylion cwrs anwytho a gynhelir yng Nghaernarfon nos Iau, Mehefin 1af – DLl, OLJ ac ATW am fynychu.

ii) ***Templed Polisi Cyfryngau Cymdeithasol***
Dosbarthwyd copi o'r uchod i bawb cyn y cyfarfod fel y cafont gyfle i'w ddarllen – penderfynwyd ei fabwysiadu.

iii) ***Bwletin***
Argraffwyd y daflen ''Amrywio Contractau Gweithwyr' er gwybodaeth.

iv) ***Côd Ymarfer ar Faterion y Gweithlu (Côd Dwy Haen) – Ffurflen Fonitro Flynyddol***
Angen ei dychwelyd erbyn Mai 29ain.

b) **Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) – Cynhadledd ar y Cyd ag Un Llais Cymru**
Hysbyseb o'r uchod a gynhelir yng Ngwesty Village St. David's, Ewlô, ar Orffennaf 12fed, 2017 (cost y dydd yw £69.00 + TAW) – hoffai'r Clerc ei fynychu ond, dibynna ar ei sefyllfa deuluol.

c) **SP Energy Networks – Wayleave ger safle'r Cyn-westy'r Harbwr, Aber-soch**
Copi o'r cytundeb a arwyddodd y Clerc ar Ragfyr 16eg, 2015.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/1338/39/LL	Cais i ymgymryd â gwaith heb gydymffurfiol â Chaniatâd Rhif C15/0761/39/LL (gosod ffenestr â gwydr afloyw), ynghyd â chodi ffens derfyn a newidiadau i ddyluniau'r tŷ – Rose Lea, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1667/39/AC	Rhyddhau amodau 3 a 4 (llechi a deunyddiau allanol) ar ganiatad cynllunio C16/1224/39/LL) – Pen y Ffordd, Yr Harbwr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau/yn ddi-amodol?**
C17/0152/39/LL	Newid defnydd modurdy i ffurfio cyfleusterau 'tu ol ty' staff yn gysylltiedig â'r siop, ynghyd ag addasiadau yn cynnwys blaen siop newydd i'r adeilad – Adeiladau Swyddfa'r Post, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0157/39/LL	Cais i ymgymryd â gwaith heb gydymffurfio ag Amod Rhif 10 ar Ganiatâd Rhif C15/0616/39/LL – Carisbrooke, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0213/39/LL	Codi clawdd pridd a thirlunio – Y Warren, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0236/39/LL	Estyniad i'r talcen, ymestyn ffenestr gromen ac addasiadau i do'r modurdy i greu to brig – 20 Tan-y-Gaer, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0268/39/LL	Newid balconi presennol ar drychiad blaen am un mwy, creu porth ac ystafell wely o dan rhan o'r balconi – 92 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0278/39/LL	Cwt glan y môr newydd yn lle'r un presennol â llwyfan bren a storfa oddi tano – Cwt Glan Môr 23, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0291/39/DA	Diwygiad di-faterol i gynyddu maint yr estyniad blaen o 400 mm – Bryn Rhosyn, 10 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C17/0294/39/LL	Cyfnewid ffenestr am un fwy – Fat Face, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0320/39/DA	Newidiadau mewnol, diwygio ffenestri, newid rendr am orffeniad tebyg i bren ac ymestyn y to ymlaen – Arfor, Lôn Garmon, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

C17/0320/39/LL	Lleoli dwy garafán sefydlog ychwanegol ar y safle presennol, ynghyd â gwelliannau i'r safle a gosod carafán sefydlog fel swyddfa – Fferm Pant Gwyn, Sarn Bach

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Mai (Rh/S 002063) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £180.29 (Rh/S 002061 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
b) G.L. Jones Ltd. – £336.00 (Rh/S 002062 – Seddi Siglenni Babanod i Gae Chwarae Aber-soch)
c) npower – £14.03 (D/U – Trydan Toiledau Lôn Traeth)

Derbyniadau

a) Toiledau – £198.70 (Tâl Mynediad – £98.50, £47.80 a £25.80, £26.60)
b) Cyngor Gwynedd – £25,000.00 (Praesept)

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mehefin 14eg, 2017 am saith o'r gloch